# Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015

**2015 dccc 1**

## RHAN 7

DARPARIAETH ATODOL YNGHYLCH SWYDDOGAETHAU CCAUC

*Arfer swyddogaethau gan CCAUC*

### 47 Cydnawsedd â chyfraith elusennau a dogfennau llywodraethu sefydliadau

(1) Nid oes dim byd yn y Ddeddf hon yn rhoi pŵer i CCAUC i'w gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu sefydliad wneud unrhyw beth sy'n anghydnaws—

(a) ag unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol neu gyfyngiad cyfreithiol sy'n gymwys i'r corff llywodraethu yn rhinwedd bod y sefydliad yn elusen, neu

(b) â dogfennau llywodraethu'r sefydliad.

(2) At ddibenion is-adran (1)(b), dogfennau llywodraethu sefydliad yw—

(a) yn achos sefydliad a sefydlwyd drwy siarter Frenhinol—

(i) siarter y sefydliad, a

(ii) unrhyw offeryn sy'n ymwneud â rhedeg y sefydliad, y mae'n ofynnol cael cymeradwyaeth y Cyfrin Gyngor er mwyn gwneud neu ddiwygio'r offeryn hwnnw;

(b) yn achos sefydliad sy'n cael ei redeg gan gorfforaeth addysg uwch, offeryn llywodraethu'r gorfforaeth ac erthyglau llywodraethu'r sefydliad;

(c) yn achos sefydliad sy'n cael ei redeg gan gorfforaeth addysg bellach, offeryn llywodraethu'r gorfforaeth a'i herthyglau llywodraethu;

(d) yn achos sefydliad a ddynodwyd o dan adran 129 o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 neu adran 28 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, offeryn llywodraethu'r sefydliad a'i erthyglau llywodraethu;

(e) yn achos sefydliad nad yw'n dod o fewn paragraffau (a) i (d) sy'n cael ei redeg gan gwmni, memorandwm y cwmni a'i erthyglau cymdeithasu.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, Adran 47 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Mehefin 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

## Gwybodaeth Cychwyn

**I1** A. 47 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 59(2)**

**I2** A. 47 mewn grym ar 25.5.2015 gan O.S. 2015/1327, **ergl. 3(e)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, Adran 47 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Mehefin 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**

– Act repealed by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 31